Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Brompton Lodge Limited**

**54 FFORDD RHOS**
**LLANDRILLO-YN-RHOS**
**BAE COLWYN**
**LL28 4RY**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

19/01/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Brompton Lodge Limited

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Oedolion Heb Ofal Nyrsio |
| Darparwr Cofrestredig | Brompton Lodge Residential home Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 34 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 30 Gorffennaf 2018 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Nac ydy |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn teimlo'n gyfforddus â'r staff gofal, sy'n sylwgar ac yn adnabod y bobl yn dda. Mae tîm y staff gofal yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi. Mae'r rheolwr yn gweithredu mewn modd ymarferol ac yn goruchwylio'r gofal a ddarperir a'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei reoli yn effeithiol. Mae'r bobl i'w gweld yn gyfforddus ac maent yn hapus yn eu hamgylchedd.

## Llesiant

Mae'r staff gofal yn helpu'r bobl i gael rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Caiff dymuniadau, teimladau, dewisiadau ac arferion dyddiol y bobl eu hadolygu'n rheolaidd ac maent yn rhan annatod o'r gwaith o gynllunio eu gofal. Mae'r staff gofal yn ymgysylltu â'r bobl yn effeithiol ac yn cymryd amser i ryngweithio â nhw ac i wrando arnynt. Mae'r rheolwyr yn frwdfrydig iawn am ansawdd y gofal a ddarperir, gan sicrhau y caiff bob agwedd o'r gofal ei goruchwylio. Mae gan y darparwyr drefniadau gweithio da â'r rheolwr. Mae'r amgylchedd yn gyfforddus ac mae digon o le.
Gwelsom berygl i iechyd a diogelwch y bobl y tu allan i'r drws cefn, a allai fod wedi peri risg i'r bobl. Fodd bynnag, cymerodd y rheolwr gamau ar unwaith i symud y perygl ac mae wedi rhoi mesurau ar waith i sicrhau na fydd yr un peth yn digwydd eto.

Rhoddir blaenoriaeth i lesiant cyffredinol ac unigol y bobl; mae'r staff yn adolygu dymuniadau ac arferion y bobl.  Caiff y bobl, eu teuluoedd a gweithwyr proffesiynol perthnasol eu cynnwys yn y gwaith o adolygu'r gofal, yn arbennig pan fydd anghenion gofal yn newid. Mae'r staff gofal yn annog y bobl i fynd ati i ryngweithio â'i gilydd ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau. Mae'r rheolwyr yn adnabod y bobl yn dda ac yn cymryd camau priodol wrth atgyfeirio anghenion iechyd unigol at weithwyr iechyd proffesiynol. Mae digon o le yn yr ardaloedd byw, a gall y bobl ddewis ble y byddant yn treulio eu hamser.

Caiff y bobl eu diogelu rhag niwed ac esgeulustod. Mae'r cofnodion gofal yn cynnwys gwybodaeth am anghenion gofal a risgiau posibl i iechyd y bobl. Mae'r staff gofal yn adnabod y bobl yn dda, ac yn gwybod pa gamau i'w cymryd os byddant yn pryderu am lesiant y bobl. Mae'r rheolwr yn cymryd camau priodol mewn ymateb i bryderon neu risgiau i unigolion. Aiff y rheolwr ati i sicrhau bod y staff gofal yn cael hyfforddiant ar ddiogelu, ac mae polisïau a gweithdrefnau diogelu'r gwasanaeth yn gyfredol ac ar gael i bob aelod o'r staff.

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd glân a chyfforddus. Mae'r staff gofal yn helpu'r bobl i wneud y gorau o'r amgylchedd, ac yn eu galluogi i wneud hynny. Gall y bobl ddewis ble maent am dreulio eu hamser a gyda phwy. Mae'r rheolwyr wedi gwneud gwelliannau yn amgylchedd y gwasanaeth, ac maent yn bwriadu gwneud rhagor o welliannau.

## Gofal a Chymorth

Caiff ystod eang o wybodaeth ac amrywiaeth o safbwyntiau eu hystyried wrth gynllunio gofal i ddiwallu anghenion unigol a chanlyniadau a gynlluniwyd. Rhoddir cyfleoedd i bobl gysylltu â'r rheolwr a'r staff gofal cyn iddynt symud i fyw yn y gwasanaeth. Gwnaethom edrych ar dri chynllun gofal a oedd yn dangos bod anghenion unigol, dymuniadau ac arferion dyddiol wrth wraidd y gwaith o gynllunio ac adolygu anghenion gofal. Gwelsom fod teuluoedd a gweithwyr proffesiynol yn cael eu hannog gan y rheolwr i fod yn rhan o'r gwaith o gynllunio'r gofal. Caiff y gwaith o gynllunio ac adolygu’r gofal ei oruchwylio'n effeithiol.

Rhoddir y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i'r bobl. Mae'r darparwyr yn sicrhau yr ymgynghorir â'r bobl, eu teuluoedd a gweithwyr proffesiynol yn barhaus. Gwelsom dystiolaeth o adborth cadarnhaol a chamau priodol yn cael eu cymryd gan y darparwyr mewn ymateb i wybodaeth a gasglwyd am anghenion gofal. Cawsom dystiolaeth o atgyfeiriadau at weithwyr proffesiynol arbenigol ac asesiadau risg unigol sy'n canolbwyntio ar anghenion unigol. Gwelsom dystiolaeth fod anghenion gofal unigol yn cael eu monitro a'u hadolygu mewn modd amserol. Gwnaethom nodi dau wall cofnodi yn nyddiadau'r cofnodion gofal a welsom, a oedd yn peri dryswch ac a allai fod wedi effeithio ar y gofal a roddwyd. Gwelsom fod y staff gofal yn arfer dulliau parchus ac urddasol wrth ofalu am y bobl.

Mae dulliau ar waith i ddiogelu’r bobl. Gwelsom fod y staff gofal wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu ac yn gwybod pa gamau i'w cymryd pe bai unigolyn yn wynebu risg. Mae systemau effeithiol ar waith i wneud yn siŵr bod y staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf. Gwelsom ymatebion priodol ac amserol i bryderon diogelu. Mae asesiadau risg unigol ar waith. Mae'r darparwr yn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau diogelu'r gwasanaeth yn gyfredol ac ar gael yn hawdd.

Mae'r systemau rhoi meddyginiaeth yn effeithiol. Caiff y cofnodion meddyginiaeth eu monitro a'u hadolygu'n effeithiol gan y rheolwyr ac unigolyn allanol. Mae'r uwch-staff gofal wedi cael hyfforddiant ar roi meddyginiaethau, a nhw sy'n gyfrifol am eu rhoi. Mae polisïau a gweithdrefnau cyfredol ar gael i'r staff gofal eu defnyddio. Dylai'r staff gofal sy'n gyfrifol am roi meddyginiaethau adolygu'r polisïau a'r prosesau sy'n ymwneud â gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld er mwyn sicrhau eu bod yn glir. Gwelsom fod meddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel a bod stociau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd.

## Yr Amgylchedd

Mae amgylchedd y gwasanaeth yn gartrefol ac yn helaeth. Gwnaethom siarad â phedwar unigolyn a ddywedodd wrthym eu bod yn mwynhau eu hamser yn yr ardaloedd cymunedol a hefyd yn eu hystafelloedd gwely. Gwelsom y staff gofal yn helpu pobl i ddefnyddio'r cyfleusterau ffôn yn y cartref ac yn helpu pobl i symud er mwyn bod yn yr ardal o'u dewis yn y cartref. Gwelsom fod y coridorau cymunedol yn lân ac yn olau, ond eu bod yn dangos rhywfaint o ôl traul; rhaid sicrhau bod y rhifau ar ddrysau'r ystafelloedd yn glir er budd y bobl sy'n byw gyda dementia. Mae'r darparwr wedi cymryd camau pwysig i wneud gwelliannau sylweddol i'r gwasanaeth. Mae'r rhain yn cynnwys yr ardal golchi a golchi dillad a chaban i ymwelwyr; mae'r ddau ddatblygiad hyn wedi'u lleoli y tu allan i'r adeilad.

Mae'r fynedfa i'r gwasanaeth yn ddiogel. Aiff y staff gofal ati i sicrhau bod ymwelwyr yn cofrestru wrth gyrraedd yr adeilad ar ôl cwblhau camau i atal a rheoli heintiau, gan gynnwys golchi dwylo, cael gwiriadau tymheredd a phrofion am heintiau. Roedd Cynlluniau Personol Gadael mewn Argyfwng (PEEP) i'r holl breswylwyr ar gael yn hawdd. Mae'r cofnodion cynnal a chadw yn dangos bod y cyfarpar trydanol, y goleuadau a'r cyfarpar diogelwch tân yn cael eu monitro a'u profi o fewn terfynau amser. Gwelsom fod cymhorthion cerdded, cymhorthion symudedd a chyfarpar codi'r bobl yn cael eu gwirio a'u gwasanaethu o fewn y terfynau amser gofynnol. Gwelsom nad oedd y drws i'r cwpwrdd trydan wedi'i gloi; cafodd hyn ei unioni yn ystod yr ymweliad. Gwelsom nad oedd y drws i'r ardal golchi dillad y tu allan i'r adeilad wedi'i gloi, ond cymerodd y rheolwr gamau ar unwaith.

## Arwain a Rheoli

Gwnaethom edrych ar y Datganiad o Ddiben a oedd ar gael ar y safle a thrwy wefan y gwasanaeth. Mae'r ddogfen yn gyfredol ac yn hawdd ei darllen, ac mae'n rhoi disgrifiad cywir o'r gwasanaeth. Gwelsom dystiolaeth bod y ddogfen hon yn cael ei hadolygu bob blwyddyn.

Mae'r darparwr yn goruchwylio'r gwasanaeth yn effeithiol drwy brosesau sicrhau ansawdd parhaus sy'n adolygu safonau'r gofal a chydymffurfiaeth â rheoliadau. Mae'r adroddiad ar ansawdd yn dangos bod yr unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd o fewn y terfynau amser gofynnol. Mae'n monitro ansawdd y gofal, yn arolygu'r safle ac yn monitro cwynion a chanmoliaeth ac yn ymateb iddynt. Gwnaethom edrych ar adborth rheolaidd a chadarnhaol a gafwyd gan y bobl, eu teuluoedd a gweithwyr proffesiynol. Mae'r rheolwr a'r darparwr yn cydweithio'n effeithlon mewn partneriaeth i sicrhau y caiff y gwasanaeth ei oruchwylio mewn modd effeithlon ac effeithiol.

Mae trefniadau llywodraethu ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn ddidrafferth. Mae ffeiliau'r staff gofal yn dangos bod systemau diogel ar waith ar gyfer fetio, recriwtio a hyfforddi staff. Dengys tystysgrifau hyfforddiant fod y staff gofal wedi cael yr hyfforddiant gofynnol diweddaraf, gan gynnwys hyfforddiant ar ofal diwedd oes. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y rheolwr; bu'r aelodau o'r staff gofal y gwnaethom siarad â nhw yn gweithio yn y gwasanaeth ers sawl blwyddyn.

Mae niferoedd staffio yn ddigonol a chânt eu cynnal. Mae trefniadau ar waith os bydd aelodau o'r staff gofal yn sâl. Dengys rota'r staff gofal fod digon o staff yn gweithio yn ystod y dydd a'r nos. Gwelsom dystiolaeth fod y staff gofal wrthi'n cwblhau amrywiaeth o gymwysterau hyfforddiant, gan gynnwys Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol (NVQ) ar wahanol lefelau.  Gwelsom fod y staff gofal yn annog y bobl ac yn garedig iddynt, yn ogystal â bod ar gael i helpu pobl yn ôl y gofyn.

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny | | |
|---|---|---|
| Dim | | |

| Meysydd lle y mae angen gweithredu ar unwaith | |
|---|---|
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau | |
|---|---|
| Dim | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 27/05/2021

Nid oedd unrhyw gofnodion diffyg cydymffurfio â statws agored.

Nid oedd unrhyw gofnodion diffyg cydymffurfio â statws agored.